OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 No. 110

## Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2014

## RHAN 2

### Diwygio Rheoliadau Adeiladu 2010

**Darpariaethau trosiannol**

**10.**—(1) Nid yw'r diwygiadau a wneir gan reoliad 4 (o ran y rheoliad 21(4)(c) newydd y mae'n ei gyflwyno i Reoliadau Adeiladu 2010), rheoliad 6 a rheoliad 8 (o ran y rheoliad 28(2) newydd y mae'n ei gyflwyno i Reoliadau Adeiladu 2010) yn gymwys mewn unrhyw achos pan fo'r canlynol yn gymwys ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym—

(a) bod gwaith adeiladu wedi dechrau yn unol ag unrhyw ddarpariaeth hysbysu berthnasol; neu

(b) y cydymffuriwyd â darpariaeth hysbysu berthnasol mewn perthynas â gwaith adeiladu arfaethedig a bod gwaith adeiladu yn dechrau o fewn y cyfnod o ddeuddeg mis yn dechrau ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

(2) Yn y rheoliad hwn, ystyr "darpariaeth hysbysu berthnasol" ("*relevant notification provision*") yw rheoliad 12(2) o Reoliadau Adeiladu 2010 ac adrannau 47(1), 50, 51A(2) a 54 o Ddeddf Adeiladu 1984.